

Astudiaeth achos: Defnydd o'r grant dysgu proffesiynol ychwanegol yn 2019/20

Cyd-destun a chefnidir

Yr ysgol

Ysgol gynradd cyfrwng Saesneg yn Wrecsam yw Ysgol yr Hafod yn ac mae'n rhan o gonsortiw GwE, Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Gogledd Cymru. Mae 350 o ddysgwyr ar gofrestr yr ysgol: mae 23 y cant yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim (FSM); mae gan 12.5% y cant anghenion dysgu ychwanegol (ADY); ac mae gan 2.85 y cant Saesneg fel iaith ychwanegol (EAL). Y rhaniad rhwng y rhywiau yn yr ysgol yw 53.71 y cant yn fechgyn a 46.29 y cant yn ferched.

Arweinwyr dynodedig ac aelodau o staff addysgu

Mae gan yr Ysgol yr Hafod dri arweinydd penodedig a 15 o athrawon amser llawn.

Swm y grant dysgu proffesiynol ychwanegol

Cafodd Ysgol yr Hafod £10,047 yn 2019/20.

Sut y defnyddiwyd y grant ychwanegol

Defnyddiwyd y grant i greu 'amser a lle' yn ystod y diwrnod ysgol i staff gydweithio ar brosiectau i gefnogi datblygiad cwricwlwm newydd.

Roedd yr ysgol yn awyddus hefyd i ddatblygu tîm o ymarferwyr myfyriol a oedd yn hyderus wrth ymwneud ag ymchwil ac ymholi gweithredol.

Wrth sôn am weledigaeth yr ysgol o ran dysgu proffesiynol, dywedodd Alison Heale, Pennaeth Ysgol yr Hafod ers 2017:

'Roedd angen cyfleoedd ar aelodau'r staff i ymgysylltu ag ymchwil gweithredol a rhoi cynnig ar bethau. Roedd angen iddyn nhw deimlo'n gyfforddus i gymryd risgiau a 'rhoi cynnig arni' ond hefyd i deimlo bod gan eraill ffydd ynddyn nhw fel gweithwyr proffesiynol â chanddynt ddisgwyliadau uchel ar gyfer eu dysgwyr.'

Mae'r grant wedi cefnogi'r canlynol:

- cyllido dau gynorthwy-ydd addysgu lefel uwch (Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2) i ryddhau amser i'r holl staff addysgu weithio mewn timau cwricwlwm (un diwrnod bob hanner tymor i bob aelod o'r staff addysgu) a chyda grwpiau llais y dysgwr (Cyngor Ysgol, Sgwad Dysgu, e-gadetiad, pwyllgor eco) gan ganolbwyntio ar:
 - ymgyfarwyddo â'r cwricwlwm newydd a'r meysydd dysgu a phrofiad
 - ymwneud ag ymchwil ac ymholi gweithredol
 - addysgu fel tîm/cymorth coetsio
 - ymweliadau â lleoliadau eraill
 - allu cael hyfforddiant perthnasol sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau yr ysgol/cenedlaethol
- cyllido un diwrnod yr wythnos ar gyfer Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) i gefnogi staff a darparu hyfforddiant i'r aelodau staff ar weddnewidiad ADY a datblygu darpariaeth gynhwysol
- cyllid i staff (athrawon a chynorthwywyr addysgu) gael hyfforddiant gan GWE, e.e. Prosiect Asesu ar gyfer Dysgu Shirley Clarke, hyfforddiant Darpar Bennaeth/Arweinydd Digidol/Cyfnod Sylfaen
- rhyddhau amser i'r uwch dîm arwain ddatblygu cynllun gweithredu sy'n gysylltiedig ag asesu ar gyfer dysgu, darparu cymorth coetsio/mentora i staff, a monitro a thracio cynnydd
- rhyddhau amser i staff rannu eu harferion yn yr ysgol, o fewn y clwstwr a thu hwnt.

Effaith y grant ar gydweithwyr ar draws yr ysgol

Myfyriodd Alison Heale, Pennaeth Ysgol yr Hafod ar y fanteision i ymarferwyr yn yr ysgol:

'Mae aelodau'r staff wedi gwerthfawrogi'n arbennig cael amser penodedig ar gyfer dysgu proffesiynol, yn hytrach na gorfod gwneud pethau ar ôl ysgol neu yn eu hamser eu hunain. Mae hyn wedi rhoi statws i amser dysgu proffesiynol ac felly mae wedi bod yn fwy effeithiol.'

Mae aelodau'r staff hefyd wedi cael cyfleoedd i arwain eu dysgu eu hunain. Mae hyn wedi cynnwys gweithio ar draws cyfnodau a chyfleoedd i'r holl staff gydweithio a dysgu ar y cyd.

Ychwanegodd y Pennaeth:

'Mae disgwyliad erbyn hyn i ddysgu weithio y ddwy ffordd. Rydyn ni wedi sefydlu diwylliant o gydweithio a rhannu arferion gorau. Mae aelodau'r staff yn awyddus i adrodd yn ôl yn dilyn eu hamser dysgu proffesiynol ac yn magu hyder wrth roi cynnig ar ddulliau newydd a myfyrio ar yr effaith ar ddysgwyr.'

Effaith y grant ar ddysgwyr

Yn ystod y 12 mis diwethaf, bu effaith sylweddol ar ddysgwyr, yn enwedig ar eu hyder wrth ddefnyddio a chymhwyso sgiliau ar draws y cwricwlwm ac wrth ennyn eu diddordeb mewn dysgu.

Mae amser penodedig ar gyfer grwpiau llais y dysgwr wedi codi statws a gwerth llais y dysgwr wrth lunio a datblygu'r cwricwlwm newydd. Mae rhai enghreifftiau isod.

- Mae'r Criw Cymraeg yn cymryd cyfrifoldeb am ddatblygu Cymraeg bob dydd ar draws yr ysgol. Maen nhw'n monitro'r defnydd o'r Gymraeg, yn darparu cymorth i'w cyfoedion ac yn darparu awgrymiadau ar sut i wella. Maen nhw'n arwain gwasanaethau boreol cyfrwng Cymraeg bob pythefnos.
- Mae'r sgwad dysgu yn datblygu eu swyddogaeth yn rhan o dîm arwain yr ysgol. Maen nhw'n gofyn barn ar y cwricwlwm, yn cymryd rhan mewn teithiau dysgu ac yn cyflwyno eu sylwadau i'r llywodraethwyr.
- Mae'r e-gadetaid yn cefnogi datblygiad sgiliau Digidol ac yn cynorthwyo eu cyfoedion i gadw'n ddiogel ar-lein.

Gwersi a ddysgwyd am ddysgu proffesiynol i'w cymhwyso ar draws yr ysgol

Roedd amser ar gyfer adborth yn dilyn dysgu proffesiynol yn arbennig o bwysig. Roedd yn ychwanegu at werth a statws y gweithgareddau dysgu proffesiynol.

Wrth i bob tîm gael amser ar gyfer dysgu proffesiynol, roedd yn bwysig peidio â gorlwytho'r holl staff â gormod o gamau gweithredu. Roedd camau gweithredu yn cael eu cysylltu â blaenoriaethau'r ysgol er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf bosibl.

Mae coetsio a mentora yn bwysig i gefnogi cydweithwyr a'u hannog wrth fynd i'r afael â heriau ar hyd y daith. Mae'n bwysig cydnabod y bydd uchafbwyntiau ac isafbwyntiau!

Gwersi a ddysgwyd am ddysgu proffesiynol i'w rhannu ag ysgolion eraill

Amserlennu dysgu proffesiynol ar gyfer y flwyddyn gyfan i sicrhau sesiynau dysgu proffesiynol pwrpasol.

Darparu cyfleoedd i aelodau'r staff gynllunio sut y byddan nhw'n defnyddio eu hamser dysgu proffesiynol gwarchoddedig ymlaen llaw.

Darparu cyfleoedd i adrodd yn ôl yn dilyn gweithgareddau dysgu proffesiynol yn ystod cyfarfodydd staff wythnosol ac yn ystod diwrnodau hyfforddi staff.

Camau nesaf

O ran y camau nesaf, mae Ysgol yr Hafod yn parhau i:

- ddarparu amser i staff roi cynnig ar bethau
- adolygu'r effaith ar ddysgwyr
- pwysleisio nad 'ateb cyflym' yw dysgu proffesiynol
- datblygu dealltwriaeth aelodau'r staff o ymchwil ac ymholi gweithredol ystyrllon
- sicrhau bod staff yn deall sut y mae gwaith ymchwilio yn cefnogi arloesedd.